



## RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

### Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Social Services and Well-being (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu.  
Amendments marked \* are new or have been altered.

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i  
esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darlennydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y  
gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain  
its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the  
amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –

Sections 2 to 76	Adrannau 2 i 76
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 77 to 133	Adrannau 77 i 133
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 134 to 169	Adrannau 134 i 169
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 170 to 183	Adrannau 170 i 183
Section 1	Adran 1
Long title	Teitl hir

---

**Kirsty Williams**

**293**

To insert a new section –

**‘(1) Statutory principles**

- (1) In making decisions under this Act the principles in subsection (2) apply.
- (2) The principles are –
  - (a) the welfare of any child in need of care and support shall be the paramount consideration, as stated in the welfare principle in section 1 of the Children Act 1989;
  - (b) in the case of an adult, anything done under this Act must seek to maximise their independence and autonomy;
  - (c) decisions made under this Act should promote the dignity, safety and well-being of a person in need of care and support, or of a carer in need of support;
  - (d) a person must be involved so far as is practicable in any decision made in relation to their care assessments, the planning, developing and the reviewing of their care and support, or relating to the support provided in their role as carers, as is appropriate having regard to their level of understanding and willingness to participate, and in addition in the case of a child as is compatible with the welfare principle;
  - (e) where a person’s ability to communicate is impaired through disability, age or otherwise, appropriate support should be provided to enable them to participate in decisions that affect them to an extent as is appropriate in the circumstances and in the case of a child compatible with the welfare principle;
  - (f) the wishes of any person must be respected and followed wherever practicable, safe and appropriate, and in the case of a child compatible with their level of understanding and the welfare principle;
  - (g) people have the right to make decisions that to others may appear irrational, unwise or eccentric unless in the case of a child they do not have the necessary level of understanding to make such decisions, or such decisions are incompatible with the welfare principle;
  - (h) it must be presumed that a person is the best judge of their own well-being, except in cases where they lack the necessary legal capacity to make that assessment or in addition in the case of a child, they do not have the necessary level of understanding to make that assessment;
  - (i) the least restrictive intervention should be adopted when it is necessary to interfere with a person’s human rights, in particular but not exclusively their right to family life, private life and home.
- (3) With the exception of the welfare principle in subsection 2(a) which in all cases involving children will be the paramount consideration, the above principles are not listed in order of priority nor do they necessarily have equal weight.’.

I fewnosod adran newydd –

**(1) Egwyddorion statudol**

- (1) Wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf hon, mae'r egwyddorion yn is-adran (2) yn gymwys.
- (2) Yr egwyddorion yw –
  - (a) llesiant unrhyw blentyn y mae arno angen gofal neu gymorth yw'r brif ystyriaeth, fel y nodir yn yr egwyddor llesiant yn adran 1 o Ddeddf Plant 1989;
  - (b) yn achos oedolyn, rhaid i unrhyw beth a wneir o dan y Ddeddf hon geisio cynyddu'i annibyniaeth a'i ymreolaeth i'r eithaf;
  - (c) dylai penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf hon hyrwyddo urddas diogelwch a llesiant person y mae arno angen gofal a chymorth, neu urddas, diogelwch a llesiant gofalwr y mae arno angen cymorth;
  - (d) i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, rhaid i berson fod yn rhan o unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â'i asesiadau gofal, y gwaith o gynllunio, datblygu ac adolygu'i ofal a'i gymorth, neu mewn perthynas a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu iddo yn ei rôl fel gofalwr, fel sy'n briodol o ystyried ei lefel o ddealltwriaeth a'i barodrwydd i gymryd rhan, ac yn ychwanegol, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws â'r egwyddor llesiant;
  - (e) pan fo anabledd, oed neu rywbeth arall yn amharu ar allu person i gyfathrebu, dylid darparu cymorth priodol i'w alluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws a'r egwyddor llesiant;
  - (f) rhaid parchu dymuniadau unrhyw berson a'u dilyn ym mha le bynnag y mae hynny'n ymarferol, yn ddiogel ac yn briodol ac, yn achos plentyn, yn gydnaws â'i lefel o ddealltwriaeth a'r egwyddor llesiant;
  - (g) mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau a allai ymddangos i eraill yn afresymol, yn annoeth neu'n ecsentrig oni bai, yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau o'r fath, neu fod penderfyniadau o'r fath yn anghydnaws â'r egwyddor llesiant;
  - (h) rhaid rhagdybio mai'r unigolyn yw'r person mwyaf cymwys i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i lesiant ei hun, ac eithrio mewn achosion pan nad oes ganddo'r cymhwyster cyfreithiol angenrheidiol i wneud yr asesiad hwnnw neu, yn ychwanegol yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud yr asesiad hwnnw;
  - (i) dylid mabwysiadu'r ymyriad sy'n cyfyngu leiaf ar yr unigolyn pan fydd yn angenrheidiol ymyrryd â hawliau dynol person, yn arbennig, ond nid yn unig, ei hawl i fywyd teuluol, bywyd preifat a chartref.
- (3) Ar wahân i'r egwyddor llesiant yn is-adran 2(a), sef y brif ystyriaeth ym mhob achos sy'n ymwneud a phlant, nid yw'r egwyddorion uchod wedi'u rhestru mewn trefn blaenoriaeth ac ni roddir yr un pwyslais arnynt o reidrwydd chwaith.'

**William Graham** 82

Section 2, page 5, after line 5, insert –

‘( ) personal dignity (including treatment of the individual with respect);’.

Adran 2, tudalen 5, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘( ) urddas bersonol (gan gynnwys trin yr unigolyn â pharch);’.

**Gwenda Thomas** 108

Section 2, page 5, line 8, leave out ‘or’ and insert ‘and’.

Adran 2, tudalen 5, llinell 8, hepgorer ‘neu weithgareddau’ a mewnosoder ‘a gweithgareddau’.

**Gwenda Thomas** 7

Section 3, page 5, line 25, after ‘(8)’, insert ‘and section (section to be inserted by amendment 52)(1)’.

Adran 3, tudalen 5, llinell 26, ar ôl ‘(8)’, mewnosoder ‘ac adran (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52)(1)’.

**Gwenda Thomas** 8

To insert a new section –

**‘( ) Meaning of “care and support”**

Any reference to care and support in this Act is to be construed as a reference to –

- (a) care;
- (b) support;
- (c) both care and support.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Ystyr “gofal a chymorth”**

Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf hon i’w ddehongli fel cyfeiriad at –

- (a) gofal;
- (b) cymorth;
- (c) gofal a chymorth.’.

**William Graham** 9A

As an amendment to amendment 9, line 3, after ‘support’, insert ‘or who are likely to do so in the future’.

Fel gwelliant i welliant 9, llinell 3, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘neu y mae’n debygol y bydd arnynt angen gofal a chymorth yn y dyfodol’.

**William Graham** **9B**

As an amendment to amendment 9, line 4, after ‘support’, insert ‘, or who are likely to do so in the future’.

Fel gwelliant i welliant 9 llinell 4, ar ôl ‘cymorth’, mewnosoder ‘, neu y mae’n debygol y bydd arnynt angen cymorth yn y dyfodol’.

**Gwenda Thomas** **9**

To insert a new section –

**‘( ) Well-being duty**

A person exercising functions under this Act must seek to promote the well-being of –

- (a) people who need care and support, and
- (b) carers who need support.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Dyletswydd llesiant**

Rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant –

- (a) pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a
- (b) gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.’.

**Gwenda Thomas** **10**

Section 4, page 6, line 10, leave out subsection (1).

Adran 4, tudalen 6, llinell 11, hepgorer is-adran (1).

**William Graham** **61**

Section 4, page 6, line 11, after ‘support’, insert ‘or who are likely to do so in the future’.

Adran 4, tudalen 6, llinell 12, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘neu y mae’n debygol y bydd arnynt angen gofal a chymorth yn y dyfodol’.

**William Graham** **62**

Section 4, page 6, line 12, after ‘support’, insert ‘, or who are likely to do so in the future’.

Adran 4, tudalen 6, llinell 13, ar ôl ‘cymorth’, mewnosoder ‘, neu y mae’n debygol y bydd arnynt angen cymorth yn y dyfodol’.

**William Graham** **63**

Section 4, page 6, line 14, after ‘support’, insert ‘(whether currently or in the future)’.

Adran 4, tudalen 6, llinell 16, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘(p’un ai ar y pryd neu yn y dyfodol)’.

**William Graham**

64

Section 4, page 6, line 15, after 'support', insert '(whether currently or in the future)'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 18, ar ôl 'gymorth', mewnosoder '(p'un ai ar y pryd neu yn y dyfodol)'.

**Gwenda Thomas**

109

Section 4, page 6, line 15, after 'support,' , insert –

'or

- (c) an individual in respect of whom functions are exercisable under Part 6 (looked after children etc),'

Adran 4, tudalen 6, llinell 18, ar ôl 'gymorth,' , mewnosoder –

'neu

- (c) unigolyn y mae swyddogaethau yn arferadwy mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal etc),'

**Gwenda Thomas**

110

Section 4, page 6, line 27, leave out 'impaired through age, disability or otherwise' and insert 'limited for any reason'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 29, hepgorer 'nam ar allu'r unigolyn i gyfathrebu oherwydd oedran, anabledd neu fel arall' a mewnosoder 'gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm'.

**Gwenda Thomas**

111

Section 4, page 6, line 29, leave out 'or (b)' and insert ', (b) or (*paragraph to be inserted by amendment 109*)'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 32, hepgorer 'neu (b)' a mewnosoder ', (b) neu (*paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 109*)'.

**Darren Millar**

292

Section 4, page 6, after line 32, insert –

- '( ) A person exercising functions under this Act in relation to an adult falling within subsection (2)(a) or (b), who is aged 60 or over, must, in addition, have due regard to the United Nations Principles for Older Persons.'

Adran 4, tudalen 6, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- '( ) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn sy'n dod o fewn is-adran (2)(a) neu (b), sy'n 60 oed neu hŷn, yn ogystal, roi sylw i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.'

**Gwenda Thomas** **112**

Section 4, page 7, line 2, leave out 'or (b)' and insert ', (b) or (*paragraph to be inserted by amendment 109*)'.

Adran 4, tudalen 7, llinell 2, hepgorer 'neu (b)' a mewnosoder ', (b) neu (*paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 109*)'.

**Gwenda Thomas** **11**

Section 4, page 7, line 11, leave out subsections (6) to (7).

Adran 4, tudalen 7, llinell 10, hepgorer is-adrannau (6) hyd at (7).

**Gwenda Thomas** **12**

Page 9, line 12, leave out section 8 and insert –

**'(1) Issue, approval and revocation of the code**

- (1) Before issuing or revising a code under section 6, the Welsh Ministers must consult such persons as they think fit on a draft of the code (or revised code).
- (2) If the Welsh Ministers wish to proceed with the draft (with or without modifications) they must lay a copy of the draft before the National Assembly for Wales.
- (3) If, before the end of the 40 day period, the National Assembly for Wales resolves not to approve the draft, the Welsh Ministers must not issue the code (or revised code) in the form of that draft.
- (4) If no such resolution is made before the end of that period –
  - (a) the Welsh Ministers must issue the code (or revised code) in the form of the draft, and
  - (b) the code (or revised code) comes into force on the date appointed by order of the Welsh Ministers.
- (5) The 40 day period –
  - (a) begins on the day on which the draft is laid before the National Assembly for Wales, and
  - (b) does not include any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (6) Subsection (3) does not prevent a new draft of a code (or revised code) from being laid before the National Assembly for Wales.
- (7) The Welsh Ministers may revoke a code (or revised code) issued under this section in a further code or by direction.
- (8) A direction under subsection (7) must be laid before the National Assembly for Wales.'

Tudalen 9, llinell 13, hepgorer adran 8 a mewnosoder –

**‘( ) Dyroddi’r cod, ei gymeradwyo a’i ddirymu**

- (1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o’r cod (neu’r cod diwygiedig).
- (2) Os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â’r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt) rhaid iddynt osod copi o’r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (3) Os, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo’r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi’r cod (neu’r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft hwnnw.
- (4) Os na wneir penderfyniad o’r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw –
  - (a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi’r cod (neu’r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a
  - (b) daw’r cod (neu’r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.
- (5) O ran y cyfnod o 40 niwrnod –
  - (a) bydd yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
  - (b) ni fydd yn cynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god (neu god diwygiedig) rhag cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (7) Caniateir i Weinidogion Cymru ddirymu cod (neu god diwygiedig) a ddyroddir o dan yr adran hon mewn cod pellach neu drwy gyfarwyddyd.
- (8) Rhaid gosod cyfarwyddyd o dan is-adran (7) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.’.

**Gwenda Thomas**

113

Section 9, page 9, line 24, leave out ‘or authorities whom’ and insert ‘which’.

Adran 9, tudalen 9, llinell 28, hepgorer ‘neu’r awdurdodau lleol y maent yn bwriadu ei gynorthwyo neu eu cynorthwyo’ a mewnosoder ‘lleol y maent yn bwriadu ei gynorthwyo’.

**Elin Jones**

300

Section 11, page 10, after line 19, insert –

- ‘(f) the actions required to provide the services identified in paragraphs (d) and (e) through the medium of the Welsh language.’.

Adran 11, tudalen 10, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘(f) y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu’r gwasanaethau a nodir ym mharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwyng y Gymraeg.’.



**Kirsty Williams**

**294**

Section 11, page 10, after line 21, insert –

- ‘() Regulations made under this section shall clarify that visits to deliver personal care in an adult’s home should not normally be commissioned to last less than thirty minutes, excluding travel time.’.

Adran 11, tudalen 10, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- ‘() Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn egluro na ddylai ymweliadau i ddarparu gofal personol yng nghartref oedolyn gael eu comisiynu fel arfer i bara llai na thri deg munud, ac eithrio amser teithio.’.

**Gwenda Thomas**

**114**

Section 11, page 10, line 29, leave out ‘and any revised strategy’.

Adran 11, tudalen 10, llinell 31, hepgorer ‘and any revised strategy’.

**Gwenda Thomas**

**115**

Section 11, page 10, after line 30, insert –

- ‘(2C) The Local Health Board (or Boards) responsible for the strategy must submit to the Welsh Ministers any part of the strategy which relates to the health and well-being of carers (and if more than one Board is responsible for the strategy, they must do so jointly).’;

- ( ) in subsection (6), after paragraph (g) insert –

- “(h) the submission of the strategy or a part of the strategy, to the Welsh Ministers (including, for example, the form in which and the time by which the strategy or part is to be submitted);

- ( ) in subsection (9), insert in the appropriate place –

- ““carer” has the same meaning as in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014,”’.

Adran 11, tudalen 10, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘(2C) The Local Health Board (or Boards) responsible for the strategy must submit to the Welsh Ministers any part of the strategy which relates to the health and well-being of carers (and if more than one Board is responsible for the strategy, they must do so jointly).’;

- ( ) yn is-adran (6), ar ôl paragraff (g) mewnosoder –

- “(h) the submission of the strategy or a part of the strategy, to the Welsh Ministers (including, for example, the form in which and the time by which the strategy or part is to be submitted);

- ( ) yn is-adran (9), mewnosoder yn y man priodol –

- ““carer” has the same meaning as in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014,”’.

**Elin Jones**

**301**

Section 12, page 11, after line 3, insert—

- ‘() A Local Health Board must provide or arrange for the provision of a range and level of services which it considers will achieve or contribute to the achievement of the purposes in subsection (2) in its area.’

Adran 12, tudalen 11, ar ôl llinell 3, mewnosoder—

- ‘() Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a fydd yn ei farn ef yn sicrhau’r dibenion neu’n cyfrannu at sicrhau’r dibenion yn is-adran (2) yn ei ardal.’

**Gwenda Thomas**

**116**

Section 12, page 11, line 23, leave out ‘only support for carers’ and insert ‘in the case of carers, support’.

Adran 12, tudalen 11, llinell 23, hepgorer ‘gymorth yn unig i ofalwyr’ a mewnosoder ‘yn achos gofalwyr, cymorth’.

**Elin Jones**

**302**

Section 12, page 11, line 27, leave out subsection (5).

Adran 12, tudalen 11, llinell 28, hepgorer is-adran (5).

**Gwenda Thomas**

**117**

Section 12, page 11, line 32, leave out ‘exercising’ and insert ‘discharging’.

Adran 12, tudalen 11, llinell 33, hepgorer ‘arfer y’ a mewnosoder ‘gyflawni’r’.

**Gwenda Thomas**

**118**

Section 12, page 12, line 3, leave out ‘A local authority may exercise the duty under subsection (1) jointly with one or more other local authorities in relation to the authorities’ and insert ‘Two or more local authorities may jointly discharge the duty under subsection (1) in relation to their’.

Adran 12, tudalen 12, llinell 3, hepgorer ‘awdurdod lleol arfer y ddyletswydd o dan is-adran (1) ar y cyd ag un neu ragor o awdurdodau lleol eraill mewn perthynas ag ardal gyfun yr awdurdodau’ a mewnosoder ‘dau neu fwy o awdurdodau lleol gyflawni’r ddyletswydd ar y cyd o dan is-adran (1) mewn perthynas â’u hardal gyfun’.

**Gwenda Thomas**

**119**

Section 12, page 12, line 11, leave out ‘limitations on the exercise of the duty under subsection (1)’ and insert ‘an exception to the duty under subsection (1) and limitations on the manner in which the duty may be discharged’.

Adran 12, tudalen 12, llinell 12, hepgorer ‘gyfyngiadau ar arfer y ddyletswydd o dan is-adran (1)’ a mewnosoder ‘eithriad i’r ddyletswydd o dan is-adran (1) a chyfyngiadau ar y modd y caniateir i’r ddyletswydd gael ei chyflawni’.

**Kirsty Williams**

**318**

Section 12, page 12, after line 12, insert –

‘(10) In this section “people” includes a person.’.

Adran 12, tudalen 12, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

‘(10) Yn yr adran hon mae “pobl” yn cynnwys person.’.

**Gwenda Thomas**

**13**

Section 13, page 12, line 19, leave out ‘provision of care and support and preventative services in its area in ways that involve service users in the design and running of services’ and insert ‘involvement of persons for whom care and support or preventative services are to be provided in the design and operation of that provision’.

Adran 13, tudalen 12, hepgorer llinellau 21 hyd at 23 a mewnosoder –

‘(c) ymglymiad personau y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i’w ddarparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a gweithredu’r ddarpariaeth honno;’.

**Gwenda Thomas**

**14**

Section 13, page 12, line 28, leave out –

‘which a person might reasonably consider –

(a) carries on its activities wholly or mainly to provide benefits for society (“its social objects”);’

And insert –

‘whose activities are wholly or mainly activities which a person might reasonably consider to be activities carried on for the benefit of society (“its social objects”), and which –’.

Adran 13, tudalen 13, llinell 1, hepgorer –

‘gallai person farnu’n rhesymol bod y sefydliad hwnnw –

(a) yn cyflawni ei weithgareddau’n gyfan gwbl neu’n bennaf i ddarparu buddion i’r gymdeithas (“ei amcanion cymdeithasol”);’

A mewnosoder –

‘mae ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu’n bennaf yn rhai y gallai person farnu’n rhesymol eu bod yn weithgareddau a gyflawnir er budd y gymdeithas (“ei amcanion cymdeithasol”), ac sydd –’.

**Gwenda Thomas**

**15**

Section 13, page 12, line 33, after ‘most’, insert ‘of’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Gwenda Thomas**

16

Section 13, page 13, line 3, leave out 'exists' and insert 'to exist'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Gwenda Thomas**

17

Section 13, page 13, line 7, leave out 'are' and insert 'to be'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Kirsty Williams**

295

Section 14, page 13, after line 22, insert –

'() The service must provide for information to be available in a range of accessible formats.'

Adran 14, tudalen 13, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

'() Rhaid i'r gwasanaeth ddarparu bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau hygyrch.'

**Gwenda Thomas**

120

Section 14, page 14, line 3, leave out 'for' and insert 'in'.

Adran 14, tudalen 14, llinell 3, hepgorer 'ar gyfer' a mewnosoder 'yn'.

**Gwenda Thomas**

121

Section 14, page 14, line 5, leave out 'areas' and insert 'combined area'.

Adran 14, tudalen 14, llinell 5, hepgorer 'hardaloedd' a mewnosoder 'hardal gyfun'.

**Gwenda Thomas**

122

Section 15, page 14, line 19, after 'falls', insert –

' and

() the person's linguistic circumstances'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 19, ar ôl 'fewn', mewnosoder –

' a

() amgylchiadau ieithyddol y person'.

**Gwenda Thomas**

123

Section 15, page 14, line 23, leave out '(8)' and insert '(subsection to be inserted by amendment 125)'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 23, hepgorer '(8)' a mewnosoder '(yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 125)'.

**Gwenda Thomas**

**124**

Section 15, page 14, line 24, leave out '(8)' and insert '(subsection to be inserted by amendment 125)'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 25, hepgorer '(8)' a mewnosoder '(yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 125)'.

**Gwenda Thomas**

**125**

Section 15, page 14, after line 25, insert—

'( ) This subsection applies to a person who—

- (a) is disabled,
- (b) is not disabled but has a physical or mental impairment which gives rise, or which the authority considers may in the future give rise, to needs for care and support, or
- (c) comes within any other category of persons the authority considers appropriate to include in a register of persons who have, or who the authority considers may in the future have, needs for care and support.'

Adran 15, tudalen 14, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'( ) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson—

- (a) sy'n anabl,
- (b) nad yw'n anabl ond y mae ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n arwain, neu y mae'r awdurdod yn barnu y gall yn y dyfodol arwain, at anghenion am ofal a chymorth, neu
- (c) sy'n dod o fewn unrhyw gategori arall o bersonau y mae'r awdurdod yn barnu ei bod yn briodol ei gynnwys mewn cofrestr o bersonau y mae arnynt, neu y mae'r awdurdod yn ystyried y gall fod arnynt yn y dyfodol, anghenion am ofal a chymorth.'

**Gwenda Thomas**

**126**

Section 15, page 14, line 27, after 'fit', insert—

', and

- ( ) must identify the linguistic circumstances of those people in the relevant register'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 27, hepgorer is-adran (6) a mewnosoder—

'( ) O ran awdurdod lleol—

- (a) caiff gatgoreiddio pobl sydd wedi eu cynnwys mewn cofrestr o dan is-adran (4) neu (5) fel y gwêl yn dda, a
- (b) rhaid iddo nodi amgylchiadau ieithyddol y bobl hynny yn y gofrestr berthnasol.'

**Gwenda Thomas**

127

Section 15, page 14, line 34, leave out subsection (8) and insert –

- '( ) Nothing in this section requires a local authority to include any person in a register maintained under this section unless –
  - (a) the person has applied to be included in the register, or
  - (b) an application to be so included has been made on the person's behalf.
- ( ) Where a local authority includes a person in a register maintained under this section, the authority –
  - (a) must inform the person that he or she has been so included, and
  - (b) if a request is made by the person or on the person's behalf, must remove from the register any personal data (within the meaning of the Data Protection Act 1998) relating to that person.'

Adran 15, tudalen 14, llinell 36, hepgorer is-adran (8) a mewnosoder –

- '( ) Nid oes dim yn yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys unrhyw berson mewn cofrestr a gedwir o dan yr adran hon oni bai –
  - (a) bod y person wedi gwneud cais i gael ei gynnwys yn y gofrestr, neu
  - (b) bod cais i'w gynnwys felly wedi ei wneud ar ran y person.
- ( ) Pan fo awdurdod lleol yn cynnwys person mewn cofrestr a gedwir o dan yr adran hon –
  - (a) rhaid i'r awdurdod hysbysu'r person ei fod wedi ei gynnwys felly, a
  - (b) os gwneir cais gan y person neu ar ran y person, rhaid i'r awdurdod ddileu o'r gofrestr unrhyw ddata personol (o fewn ystyr "personal data" yn Neddf Diogelu Data 1998) sy'n ymwneud â'r person hwnnw.'

**William Graham**

65

Section 16, page 15, line 8, after 'support', insert '(whether currently or in the future)'

Adran 16, tudalen 15, llinell 10, ar ôl 'chymorth', mewnosoder '(p'un ai ar y pryd neu yn y dyfodol)'.

**William Graham**

66

Section 16, page 15, line 10, after 'support', insert ', or is likely to do so in the future'.

Adran 16, tudalen 15, llinell 11, ar ôl 'chymorth', mewnosoder ', neu a yw'n debygol y bydd arno angen am ofal a chymorth yn y dyfodol'.

**William Graham**

67

Section 16, page 15, line 11, after 'are', insert ', or are likely to be in the future'.

Adran 16, tudalen 15, llinell 12, ar ôl 'hynny', mewnosoder ', neu beth y mae'n debygol fydd yr anghenion hynny yn y dyfodol'.

**Kirsty Williams**

**296**

Section 16, page 15, leave out lines 26 to 27.

Adran 16, tudalen 15, hepgorer llinellau 29 hyd at 30.

**Gwenda Thomas**

**128**

Section 17, page 16, line 7, leave out 'by an adult of a needs assessment under section 16 does not discharge a local authority from its duty under that section' and insert 'under subsection (1) does not discharge a local authority from its duty under section 16'.

Adran 17, tudalen 16, llinell 7, hepgorer 'yw'r ffaith bod oedolyn yn gwrthod asesiad o'i anghenion o dan adran 16 yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd o dan yr adran honno' a mewnosoder 'yw gwrthodiad o dan is-adran (1) yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd o dan adran 16'.

**William Graham**

**68**

Section 18, page 16, line 23, after 'support', insert '(whether currently or in the future)'.

Adran 18, tudalen 16, llinell 23, ar ôl 'blentyn', mewnosoder '(p'un ai ar y pryd neu yn y dyfodol)'.

**William Graham**

**69**

Section 18, page 16, line 26, after 'kind', insert ', or is likely to do so in the future'.

Adran 18, tudalen 16, llinell 26, ar ôl 'plentyn', mewnosoder 'neu a yw'n debygol y bydd arno angen gofal a chymorth o'r math hwnnw yn y dyfodol'.

**William Graham**

**70**

Section 18, page 16, line 27, after 'are', insert ', or are likely to be in the future'.

Adran 18, tudalen 16, llinell 27, ar ôl 'hynny', mewnosoder ', neu beth y mae'n debygol fydd yr anghenion hynny yn y dyfodol'.

**Gwenda Thomas**

**129**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 18, tudalen 16, llinell 36, ar ôl 'asesiad', mewnosoder 'o anghenion'.

**Kirsty Williams**

**297**

Section 18, page 17, leave out lines 15 to 16.

Adran 18, tudalen 17, hepgorer llinellau 16 hyd at 17.

**Gwenda Thomas**

130

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version Adran 18, tudalen 17, llinell 23, ar ôl 'asesiad', mewnosoder 'o anghenion'.

**Gwenda Thomas**

131

Section 18, page 17, after line 23, insert –

'() For the purposes of subsection (1) a disabled child is presumed to need care and support in addition to, or instead of, the care and support provided by the child's family.'

Adran 18, tudalen 17, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

'() At ddibenion is-adran (1) rhagdybir bod angen gofal a chymorth ar blentyn anabl yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn.'

**Gwenda Thomas**

132

Section 19, page 17, line 32, leave out 'by a child aged 16 or 17 of a needs assessment under section 18 does not discharge a local authority from its duty under that section' and insert 'under subsection (1) does not discharge a local authority from its duty under section 18'.

Adran 19, tudalen 17, llinell 34, hepgorer 'yw'r ffaith bod plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed yn gwrthod asesiad o'i anghenion o dan adran 18 yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd o dan yr adran honno' a mewnosoder 'yw gwrthodiad o dan is-adran (1) yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd o dan adran 18'.

**Gwenda Thomas**

133

Section 19, page 18, line 6, after 'decision', insert 'about the refusal of a needs assessment'.

Adran 19, tudalen 18, llinell 7, ar ôl 'deallus', mewnosoder 'ynghylch gwrthod asesiad o anghenion'.

**Gwenda Thomas**

134

Section 19, page 18, line 7, leave out 'the refusal by a child aged under 16 of a needs assessment' and insert 'a refusal under subsection (3)'.

Adran 19, tudalen 18, llinell 8, hepgorer 'yw'r ffaith bod plentyn o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o'i anghenion' a mewnosoder 'yw gwrthodiad o dan is-adran (3)'.

**Gwenda Thomas**

135

Section 20, page 18, line 19, leave out 'the' and insert 'a'.

Adran 20, tudalen 18, llinell 21, hepgorer 'yw'r' a mewnosoder 'yw'.



**Gwenda Thomas** 136

Section 20, page 18, line 24, leave out 'to have'.

Adran 20, tudalen 18, llinell 26, hepgorer 'cael'.

**Gwenda Thomas** 137

Section 20, page 18, line 26, after 'decision', insert 'about the refusal of a needs assessment'.

Adran 20, tudalen 18, llinell 29, ar ôl 'deallus', mewnosoder 'ynghylch gwrthod asesiad o anghenion'.

**Gwenda Thomas** 138

Section 20, page 18, line 30, after 'responsibility', insert 'for the child'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Kirsty Williams** 298

Section 21, page 20, leave out lines 1 to 2.

Adran 21, tudalen 20, hepgorer llinellau 1 hyd at 2.

**Gwenda Thomas** 139

Section 23, page 20, line 29, leave out 'a needs assessment of the person and the carer' and insert –

' –

(a) the person's needs assessment under section 16 or 18, and

(b) the carer's needs assessment under section 21'.

Adran 23, tudalen 20, llinell 32, hepgorer 'asesiad o anghenion y person ac anghenion y gofalwr' a mewnosoder –

' –

(a) asesiad o anghenion y person o dan adran 16 neu 18, a

(b) asesiad o anghenion y gofalwr o dan adran 21'.

**Gwenda Thomas** 140

Section 23, page 20, line 34, leave out 'their' and insert 'his or her'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Gwenda Thomas** 141

Section 23, page 20, line 34, after 'combine', insert ', in respect of that person,'.

Adran 23, tudalen 20, llinell 37, ar ôl 'gyfuno', mewnosoder ', mewn cysylltiad â'r person hwnnw,'.

**Gwenda Thomas** 142

Section 24, page 21, after line 11, insert –

- ‘() Regulations under this section must make provision for the review of needs assessments, and may, for example, specify –
- (a) the persons who may request a review of an assessment (on their own behalf or on behalf of another person);
  - (b) the circumstances in which a local authority –
    - (i) may refuse to comply with a request for a review of an assessment, and
    - (ii) may not refuse to do so.’

Adran 24, tudalen 21, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ar gyfer adolygu asesiadau o anghenion, a chaniateir iddynt, er enghraifft, bennu –
- (a) y personau a gaiff ofyn am adolygiad o asesiad (ar eu rhan hwy eu hunain neu ar ran person arall);
  - (b) o dan ba amgylchiadau –
    - (i) y caiff awdurdod lleol wrthod cydymffurfio â chais am adolygiad o asesiad, a
    - (ii) na chaiff awdurdod lleol wrthod gwneud hynny.’

**Gwenda Thomas** 143

Section 24, page 21, line 12, after ‘may’, insert ‘also’.

Adran 24, tudalen 21, llinell 12, ar ôl ‘hon’, mewnosoder ‘hefyd’.

**Gwenda Thomas** 144

Section 24, page 21, leave out line 20.

Adran 24, tudalen 21, hepgorer llinell 19.

**William Graham** 71

Section 26, page 21, line 32, after ‘support’ at the first place where it appears, insert ‘, or is likely to do so in the future,’.

Adran 26, tudalen 21, llinell 32, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘, neu y mae’n debygol y bydd ar berson anghenion am ofal a chymorth yn y dyfodol,’.

**Gwenda Thomas** 145

Section 26, page 21, line 32, leave out ‘that a carer has’ and insert ‘, if the person is a carer,’.

Adran 26, tudalen 21, llinell 32, hepgorer ‘fod ar ofalwr’ a mewnosoder ‘, os gofalwr yw’r person, bod arno’.

**William Graham**

72

Section 26, page 21, line 32, after 'support' at the second place where it appears, insert ', or is likely to do so in the future'.

Adran 26, tudalen 21, llinell 32, ar ôl 'gymorth', mewnosoder 'neu y mae'n debygol y bydd ar ofalwr anghenion am gymorth yn y dyfodol'.

**Gwenda Thomas**

146

Section 26, page 22, line 3, leave out –

' , or

- (ii) in the case of a child, other harm or a risk of such harm',

And insert –

'(if the person is an adult);

- ( ) abuse or neglect or a risk of abuse or neglect, or other harm or a risk of such harm (if the person is a child)'.

Adran 26, tudalen 22, llinell 4, hepgorer –

' , neu

- (ii) yn achos plentyn, rhag cael, neu rhag risg o gael, ei niweidio mewn modd arall',

A mewnosoder –

'(os oedolyn yw'r person);

- ( ) rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag cael, neu rhag risg o gael, ei niweidio mewn modd arall (os plentyn yw'r person)'.

**Gwenda Thomas**

147

Section 26, page 22, line 6, leave out 'power or duty' and insert 'function'.

Adran 26, tudalen 22, llinell 9, hepgorer 'pŵer neu'r ddyletswydd' a mewnosoder 'swyddogaeth'.

**Gwenda Thomas**

148

Section 26, page 22, line 11, leave out 'or may' and insert 'be met, or are to'.

Adran 26, tudalen 22, llinell 13, hepgorer ', neu y caniateir, i unrhyw anghenion gael eu diwallu' a mewnosoder 'i unrhyw anghenion gael eu diwallu, neu eu bod i'w diwallu,'.

**Gwenda Thomas**

149

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 26, tudalen 22, llinell 16, hepgorer 'codi' a mewnosoder 'gosod'.

**Kirsty Williams**

**299**

Section 26, page 22, line 17, leave out subsection (4) and insert –

- ‘( ) The eligibility criteria are met where one or more of the following circumstances apply –
- (a) there is, or will be, an inability to carry out several personal care or domestic routines;
  - (b) the individual is, or will be, unable to maintain control over several aspects of their day-to-day life;
  - (c) involvement in several aspects of work, education, training or recreation cannot or will not be sustained;
  - (d) several domestic, family and personal relationships cannot or will not be sustained;
  - (e) there is abuse or neglect or risk of abuse or neglect.
- ( ) In the case of a child the eligibility criteria are met where subsection (*first subsection to be inserted by amendment 299*) applies or there is harm or risk of harm.’

Adran 26, tudalen 22, llinell 20, hepgorer is-adran (4) a mewnosoder –

- ‘( ) Bodlonir y meini prawf cymhwysra pan fydd un neu ragor o’r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys –
- (a) bod, neu bydd, analluedd i ymgymryd â sawl tasg arferol o ran gofal personol neu ddomestig;
  - (b) nad yw’r unigolyn, neu na fydd yr unigolyn, yn gallu cynnal rheolaeth dros sawl agwedd ar ei fywyd pob dydd;
  - (c) na ellir cynnal sawl agwedd ar waith, addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden neu na fydd yr agweddau hynny yn cael eu cynnal;
  - (d) na ellir cynnal sawl perthynas ddomestig, deuluol neu bersonol neu na fydd y perthnasoedd hynny yn cael eu cynnal;
  - (e) bod camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.
- ( ) Yn achos plentyn, bodlonir y meini prawf cymhwysytra pan fydd is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 299*) yn gymwys neu pan fydd niwed neu risg o niwed.’

**Gwenda Thomas**

**18**

To insert a new section –

‘( ) **Procedure for regulations under section 26**

- (1) Before making regulations under section 26(3) or (4), the Welsh Ministers must carry out the following steps.
- (2) The Welsh Ministers must consult –
  - (a) such persons as appear to them likely to be affected by the regulations,
  - (b) such organisations as appear to them to represent the interests of persons likely to be affected by the regulations, and

- (c) such other persons as they consider appropriate, on the proposed draft regulations.
- (3) The Welsh Ministers must –
  - (a) allow those persons a period of at least 12 weeks to submit comments on the proposed draft regulations,
  - (b) consider any comments submitted within that period, and
  - (c) publish a summary of those comments.
- (4) The Welsh Ministers must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales.
- (5) Draft regulations laid under subsection (4) –
  - (a) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of any differences between the draft regulations consulted on under subsection (2) and the draft regulations laid under subsection (4), and
  - (b) may not be approved by a resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 179(6) until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the draft regulations are laid.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 26**

- (1) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 26(3) neu (4), rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y rheoliadau drafft arfaethedig â’r canlynol –
  - (a) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos iddynt fod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt,
  - (b) unrhyw sefydliadau y mae’n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae’r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac
  - (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru –
  - (a) rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i’r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,
  - (b) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
  - (c) cyhoeddi crynodeb o’r sylwadau hynny.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o’r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (5) O ran y rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4) –
  - (a) rhaid iddynt fynd gyda datganiad gan Weinidogion Cymru yn rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (2) a’r rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4), a
  - (b) ni chaniateir iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad

Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 179(6) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.'.

**Gwenda Thomas** 150

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version  
Adran 28, tudalen 23, llinell 20, ar ôl 'esgeuluso', mewnosoder 'neu'.

**Gwenda Thomas** 151

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version  
Adran 28, tudalen 23, llinell 33, hepgorer 'Meddwl' a mewnosoder 'Meddyliol'.

**Gwenda Thomas** 152

Section 29, page 24, line 6, leave out 'which' and insert 'whose area'.

Adran 29, tudalen 24, llinell 6, hepgorer 'lle y mae'r oedolyn yn preswyllo fel arfer' a mewnosoder 'y mae'r oedolyn yn preswyllo fel arfer yn ei ardal'.

**William Graham** 83

To insert a new section –

**'( ) Carers: strategy**

- (1) A local authority and a Local Health Board must jointly prepare and publish a strategy setting out how they will jointly or separately –
  - (a) provide appropriate information and advice to carers,
  - (b) ensure that, where it falls to a local authority or Local Health Board to decide what services (if any) are to be provided to the carer or the person cared for, the carer is consulted before that decision is made, and
  - (c) ensure that the local authority or Local Health Board consults carers before it makes decisions of a general nature regarding the provision of services to or for carers and the persons they care for.
- (2) Each local authority and Local Health Board responsible under subsection (1) for the preparation and publication of a strategy must implement the strategy.'

I fewnosod adran newydd –

**'( ) Gofalwyr: strategaeth**

- (1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth ar y cyd yn nodi sut y byddant, ar y cyd neu ar wahân –
  - (a) yn darparu gwybodaeth a chynghor priodol i ofalwyr,
  - (b) yn sicrhau, pan fo awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) sydd i'w darparu i'r gofalwr neu'r person y gofalir amdano, yr ymgynghorir â'r gofalwr cyn i'r penderfyniad hwnnw gael ei

wneud, ac

    - (ii) sy'n preswyllo mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.'

**Gwenda Thomas**

52

To insert a new section –

**'( ) Persons in prison, youth detention accommodation or bail accommodation etc**

- (1) A person is not a carer for the purposes of this Act if the person –
- (a) is detained in prison or youth detention accommodation, or
  - (b) having been convicted of an offence, is –
    - (i) residing in approved premises, or
    - (ii) residing in any other premises because a requirement to do so has been imposed on the person as a condition of the grant of bail in criminal proceedings.
- (2) Regulations under section 41 or 42 (direct payments) may not require or allow payments to be made towards the cost of meeting a person's needs for care and support if that person, having been convicted of an offence, is –
- (a) detained in prison or in youth detention accommodation,
  - (b) residing in approved premises, or
  - (c) residing in any other premises because a requirement to do so has been imposed on the person as a condition of the grant of bail in criminal proceedings.

- (3) The power under section 48 (preference for particular accommodation) may not be exercised in the case of a person who is –
- (a) detained in prison or in youth detention accommodation,
  - (b) residing in approved premises, or
  - (c) residing in any other premises because a requirement to do so has been imposed on the person as a condition of the grant of bail in criminal proceedings,
- except for the purpose of making provision with respect to accommodation for the person on the person's release from prison or youth detention accommodation (including temporary release), or on the person's ceasing to reside in the approved or other premises.
- (4) Section 49 (protecting property of persons being cared for away from home) does not apply in the case of a person who is –
- (a) detained in prison or in youth detention accommodation,
  - (b) residing in approved premises, or
  - (c) residing in any other premises because a requirement to do so has been imposed on the person as a condition of the grant of bail in criminal proceedings.'.

I fewnosod adran newydd –

**'( ) Personau mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc**

- (1) Nid yw person yn ofalwr at ddibenion y Ddeddf hon os yw'r person –
- (a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu
  - (b) ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd –
    - (i) yn preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, neu
    - (ii) yn preswyllo mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y person fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.
- (2) Ni chaiff rheoliadau o dan adran 41 neu 42 (taliadau uniongyrchol) ei gwneud yn ofynnol na chaniatáu i daliadau gael eu gwneud tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth os yw'r person hwnnw, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd –
- (a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid,
  - (b) yn preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, neu
  - (c) yn preswyllo mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y person fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.
- (3) Ni chaniateir i'r pŵer o dan adran 48 (achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol) gael ei arfer yn achos person sydd –
- (a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid,
  - (b) yn preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, neu
  - (c) yn preswyllo mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y person fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol,

ac eithrio at y diben o wneud darpariaeth mewn cysylltiad â llety i'r person wrth iddo gael ei ryddhau o'r carchar neu o'r llety cadw ieuenctid (gan gynnwys ei ryddhau dros

dro), neu wrth i'r person beidio â phreswyllo mwyach yn y fangre a gymeradwywyd neu yn y fangre arall.

- (4) Nid yw adran 49 (gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi) yn gymwys yn achos person –
- (a) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuencid,
  - (b) sy'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, neu
  - (c) sy'n preswyllo mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y person fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.'

**Gwenda Thomas**

53

To insert a new section –

**'( ) Interpretation of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52)**

- (1) In sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) –

“approved premises” (“mangre a gymeradwywyd”) has the meaning given by section 13 of the Offender Management Act 2007;

“bail in criminal proceedings” (“mechnïaeth mewn achos troseddol”) has the meaning given by section 1 of the Bail Act 1976;

“prison” (“carchar”) has the same meaning as in the Prison Act 1952 (see section 53(1) of that Act);

“youth detention accommodation” (“llety cadw ieuencid”) means –

- (a) a secure children's home;
  - (b) a secure training centre;
  - (c) a young offender institution;
  - (d) accommodation provided, equipped and maintained by the Welsh Ministers under section 82(5) of the Children Act 1989 for the purpose of restricting the liberty of children;
  - (e) accommodation, or accommodation of a description, for the time being specified by order under section 107(1)(e) of the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000 (youth detention accommodation for purposes of detention and training orders).
- (2) For the purposes of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) –
- (a) a person who is temporarily absent from prison or youth detention accommodation is to be treated as detained in prison or youth detention accommodation for the period of absence;
  - (b) a person who is temporarily absent from approved premises is to be treated as residing in approved premises for the period of absence;
  - (c) a person who is temporarily absent from other premises in which the person is

required to reside as a condition of the grant of bail in criminal proceedings is to be treated as residing in the premises for the period of absence.’.

I fewnosod adran newydd –

‘( ) **Dehongli adrannau (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50) i (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52)**

(1) Yn adrannau (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50) i (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52) –

mae i “carchar” yr ystyr a roddir i “prison” yn Neddf Carchardai 1952 (gweler adran 53(1) o’r Ddeddf honno);

ystyr “llety cadw ieuentid” (“youth detention accommodation”) yw –

- (a) cartref diogel i blant;
- (b) canolfan hyfforddi ddiogel;
- (c) sefydliad troseddwr ifanc;
- (d) llety sy’n cael ei ddarparu, ei gyfarparu a’i gynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 at y diben o gyfyngu ar ryddid plant;
- (e) llety, neu lety o ddisgrifiad, a bennir am y tro drwy orchymyn o dan adran 107(1)(e) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (llety cadw ieuentid at ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi);

mae i “mangre a gymeradwywyd” yr ystyr a roddir i “approved premises” gan adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwr 2007;

mae i “mechnïaeth mewn achos troseddol” yr ystyr a roddir i “bail in criminal proceedings” gan adran 1 o Ddeddf Mechnïaeth 1976.

(2) At ddibenion adrannau (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50) i (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52) –

- (a) mae person sy’n absennol dros dro o garchar neu lety cadw ieuentid i’w drin fel pe bai’n cael ei gadw’n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuentid am gyfnod yr absenoldeb;
- (b) mae person sy’n absennol dros dro o fangre a gymeradwywyd i’w drin fel pe bai’n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd am gyfnod yr absenoldeb;
- (c) mae person sy’n absennol dros dro o fangre arall y mae’n ofynnol i’r person breswyllo ynddi fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol i’w drin fel pe bai’n preswyllo yn y fangre am gyfnod yr absenoldeb.’.

Gwenda Thomas

262

Section 172, page 115, line 20, leave out ‘doing so involves’ and insert ‘those needs are met by’.

Adran 172, tudalen 115, llinell 21, hepgorer ‘mae gwneud hynny yn cynnwys darparu’ a mewnosoder ‘mae’r anghenion hynny yn cael eu diwallu drwy ddarparu’.

**Gwenda Thomas**

**263**

Section 174, page 118, line 1, leave out ‘as to the interpretation, for the purposes of section 172 and this section,’ and insert ‘for the purposes of section 172 and this section as to the interpretation’.

Adran 174, tudalen 118, llinell 1, hepgorer ‘ynglŷn â’r dehongliad, at ddibenion adran 172 a’r adran hon,’ a mewnosoder ‘at ddibenion adran 172 a’r adran hon ynglŷn â’r dehongliad’.

**Jocelyn Davies**

**322**

To insert a new section –

**‘(1) Use of zero hours contracts**

- (1) A local authority that directly provides or contracts a service in the exercise of its social services functions must not permit the employment of any person on a zero hours contract in the provision of that service.
- (2) “Zero hours contracts” mean contracts under which an employee agrees to be available for work but has no guarantee of minimum hours.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations amend the definition of “zero hours contracts” in subsection (2).’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Y defnydd o gontractau dim oriau**

- (1) Ni chaiff awdurdod lleol sy’n darparu neu’n contractio gwasanaeth yn uniongyrchol wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ganiatáu i unrhyw berson gael ei gyflogi ar gontract dim oriau wrth ddarparu’r gwasanaeth hwnnw.
- (2) Ystyr “contractau dim oriau” yw contractau pan fydd cyflogai yn cytuno i fod ar gael i weithio ond nad oes ganddo sicrwydd o ran isafswm oriau.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio’r diffiniad o “contractau dim oriau” yn is-adran (2).’.

**Jocelyn Davies**

**323**

To insert a new section –

**‘(1) Procedure for regulations under section (*section to be inserted by amendment 322*)**

- (1) Before making regulations under section (*section to be inserted by amendment 322*) the Welsh Ministers must carry out the following steps.
- (2) The Welsh Ministers must consult –
  - (a) such persons as appear to them likely to be affected by the regulations,
  - (b) such organisations as appear to them to represent the interests of persons likely to be affected by the regulations, and
  - (c) such other persons as they consider appropriate, on the proposed draft regulations.
- (3) The Welsh Ministers must –

- (a) allow those persons a period of at least 12 weeks to submit comments on the proposed draft regulations,
  - (b) consider any comments submitted within that period, and
  - (c) publish a summary of those comments.
- (4) The Welsh Ministers must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales.
- (5) Draft regulations laid under subsection (4) –
- (a) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of any differences between the draft regulations consulted on under subsection (2) and the draft regulations laid under subsection (4), and
  - (b) may not be approved by a resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 179(6) until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the draft regulations are laid.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 322)**

- (1) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 322) rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a’r canlynol –
- (a) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos iddynt fod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt,
  - (b) unrhyw sefydliadau y mae’n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae’r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac
  - (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i’r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,
  - (b) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
  - (c) cyhoeddi crynodeb o’r sylwadau hynny.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o’r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (5) O ran y rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4) –
- (a) rhaid iddynt fynd gyda datganiad gan Weinidogion Cymru yn rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (2) a’r rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4), a
  - (b) ni chaniateir iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 179(6) tan ar ol i’r cyfnod o 60 niwrnod, yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.’.



**Gwenda Thomas** 264

Section 176, page 118, line 28, after 'Trust', insert ', an NHS Foundation Trust'.

Adran 176, tudalen 118, llinell 28, ar ôl 'GIG', mewnosoder ', Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG'.

**Gwenda Thomas** 265

Section 176, page 118, line 30, after 'Trust', insert 'an NHS Foundation Trust'.

Adran 176, tudalen 118, llinell 30, ar ôl 'GIG', mewnosoder 'Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG'.

**Gwenda Thomas** 266

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 177, tudalen 119, llinell 37, hepgorer 'preswylad' a mewnosoder 'preswylfa'.

**Gwenda Thomas** 267

Section 177, page 119, line 38, leave out 'any purpose in this Act, any period is to be disregarded in which the child lives in' and insert 'the purposes of this Act, the child's residence in the following places is to be disregarded'.

Adran 177, tudalen 119, llinell 37, hepgorer 'unrhyw ddiben yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfnod i'w ddiystyru pan fo'r plentyn yn byw mewn' a mewnosoder 'ddibenion y Ddeddf hon, mae preswylfa'r plentyn yn y manau a ganlyn i'w ddiystyru'.

**Gwenda Thomas** 268

Section 177, page 120, line 1, after 'place', insert 'in which the child is placed'.

Adran 177, tudalen 120, llinell 1, ar ôl 'man', mewnosoder 'lle y lleolir y plentyn'.

**Gwenda Thomas** 269

Section 177, page 120, line 3, after 'place', insert 'in which the child is placed'.

Adran 177, tudalen 120, llinell 2, ar ôl 'man', mewnosoder 'lle y lleolir y plentyn'.

**Gwenda Thomas** 54

Section 177, page 120, after line 7, insert—

(7) See also sections (*section to be inserted by amendment 50*)(1) to (3) and (*section to be inserted by amendment 51*)(2) for provision as to the ordinary residence of persons in prison, youth detention accommodation or bail accommodation etc.'.

Adran 177, tudalen 120, ar ôl llinell 5, mewnosoder—

(7) Gweler hefyd adrannau (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 50*)(1) i (3) a (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 51*)(2) am ddarpariaeth o ran preswylfa arferol personau sydd mewn carchar, llety cadw ieuentid neu lety mechniaeth etc.'.

**Gwenda Thomas**

**270**

Page 120, line 8, leave out section 178 and insert –

**‘(1) Disputes about ordinary residence and portability of care and support**

- (1) A dispute between local authorities about where a person is ordinarily resident in Wales for the purposes of this Act, or a dispute between a sending and receiving authority under section 47 about the application of that section in relation to a person, is to be determined by –
  - (a) the Welsh Ministers, or
  - (b) a person appointed by the Welsh Ministers for that purpose (“an appointed person”).
- (2) Regulations may make further provision about the resolution of disputes of the type mentioned in subsection (1); the regulations may, for example, make –
  - (a) provision for ensuring that care and support is provided to a person while a dispute is unresolved;
  - (b) provision requiring local authorities in dispute to take specified steps before referring a dispute to the Welsh Ministers or an appointed person;
  - (c) provision about the procedure for referring a dispute to the Welsh Ministers or an appointed person;
  - (d) provision about the review of a determination made under subsection (1).’.

Tudalen 120, llinell 6, hepgorer adran 178 a mewnosoder –

**‘(1) Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth**

- (1) Mae anghydfod rhwng awdurdodau lleol ynghylch ble y mae person yn preswyllo fel arfer yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf hon, neu anghydfod rhwng awdurdod anfon ac awdurdod derbyn o dan adran 47 ynghylch cymhwyso’r adran honno mewn perthynas â pherson, i’w ddyfarnu arno gan –
  - (a) Gweinidogion Cymru, neu
  - (b) person a benodir gan Weinidogion Cymru at y ddiben hwnnw (“person penodedig”).
- (2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch datrys anghydfodau o’r math a grybwyllwyd yn is-adran (1); caiff y rheoliadau wneud, er enghraifft –
  - (a) darpariaeth i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu i berson tra bo anghydfod heb ei ddatrys;
  - (b) darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol mewn anghydfod gymryd camau penodedig cyn cyfeirio anghydfod at Weinidogion Cymru neu berson penodedig;
  - (c) darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer cyfeirio anghydfod at Weinidogion Cymru neu berson penodedig;
  - (d) darpariaeth ynghylch adolygu dyfarniad a wneir o dan is-adran (1).’.

**William Graham**

84

To insert a new section –

*'Whistleblowing*

**( ) Whistleblowing**

A person exercising any function under this Act shall be a “worker” for the purposes of sections 43K, 47B (and of sections 48 and 49 so far as they relate to section 47B) and 230 of the Employment Rights Act 1996.’

I fewnosod adran newydd –

*'Chwythu'r Chwiban*

**( ) Chwythu'r Chwiban**

Bydd person sy'n gweithredu unrhyw swyddogaeth o dan y Ddeddf hon yn “weithiwr” at ddibenion adrannau 43K, 47B (ac adrannau 48 a 49 i'r graddau y maent yn gysylltiedig ag adran 47B) a 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.’

**William Graham**

4

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams**

Section 179, page 121, line 17, after ‘34(1),’, insert ‘67(first subsection to be inserted by amendment 2),’.

Adran 179, tudalen 121, llinell 19, ar ôl ‘34(1),’, mewnosoder ‘67(yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 2),’.

**Kirsty Williams**

321

Section 179, page 121, line 17, after ‘34(1),’, insert ‘(section to be inserted by amendment 319),’.

Adran 179, tudalen 121, llinell 19, ar ôl ‘34(1),’, mewnosoder ‘(yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 319),’.

**Lindsay Whittle**

332

Section 179, page 121, line 17, after ‘34(1),’, insert ‘(section to be inserted by amendment 331),’.

*An amendment consequential to amendment 332, relating to local authorities' duties in relation to post-18 living arrangements.*

Adran 179, tudalen 121, llinell 19, ar ôl ‘34(1),’, mewnosoder ‘(yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 331),’.

*Gwelliant canlyniadol i welliant 332, sy'n ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau byw ôl-18.*

**Gwenda Thomas**

81

Section 179, page 121, line 18, leave out 'or 158' and insert ', 158 or (section to be inserted by amendment 78)'.

Adran 179, tudalen 121, llinell 20, hepgorer 'neu 158' a mewnosoder ', 158 neu (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 78)'.

**Angela Burns**

330

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Simon Thomas**

Section 179, page 121, line 18, leave out 'or 158' and insert ', 158, (section to be inserted by amendment 328) or (section to be inserted by amendment 329)'.

*A consequential amendment linked to amendments 325 to 329, relating to the establishment of a national board for adoption services.*

Adran 179, tudalen 121, llinell 20, hepgorer 'neu 158' a mewnosoder ', 158, (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 328) neu (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 329)'.

*Gwelliant canlyniadol sy'n gysylltiedig â gwelliannau 325 i 329, sy'n ymwneud â sefydlu Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu.*

**Gwenda Thomas**

271

Section 179, page 121, after line 21, insert—

'(see sections (section to be inserted by amendment 18) and 131 for further requirements in relation to the making of regulations under section 26 and orders under section 130).'

Adran 179, tudalen 121, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

'(gweler adrannau (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 18) a 131 am ofynion pellach mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 26 a gorchmynion o dan adran 130).'

**William Graham**

5

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams**

Section 179, page 121, after line 24, insert—

'(8) For additional requirements in relation to the making by Welsh Ministers of regulations under section 67(*first subsection to be inserted by amendment 2*) see section (*section to be inserted by amendment 3*).'

Adran 179, tudalen 121, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

'(8) Am ofynion ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 67(*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 2*) gweler adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 3*).'

**William Graham**

85

Section 180, page 121, line 28, after 'emotional', insert ', institutional'.

Adran 180, tudalen 122, llinell 18, ar ôl 'emosiynol', mewnosoder ', sefydliadol'.

**Gwenda Thomas**

55

Section 180, page 121, after line 34, insert –

“approved premises” (*“mangre a gymeradwywyd”*) is defined for the purposes of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) by section (section to be inserted by amendment 53)(1);’.

Adran 180, tudalen 123, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘mae “mangre a gymeradwywyd” (*“approved premises”*) wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50*) i (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52*) gan adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 53*)(1);’.

**Gwenda Thomas**

56

Section 180, page 121, after line 34, insert –

“bail in criminal proceedings” (*“mechnïaeth mewn achos troseddol”*) is defined for the purposes of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) by section (section to be inserted by amendment 53)(1);’.

Adran 180, tudalen 123, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘mae “mechnïaeth mewn achos troseddol” (*“bail in criminal proceedings”*) wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50*) i (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52*) gan adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 53*)(1);’.

**Gwenda Thomas**

57

Section 180, page 121, line 35, leave out ‘4(7)’ and insert ‘(section to be inserted by amendment 8)’.

Adran 180, tudalen 123, llinell 21, hepgorer ‘4(7)’ a mewnosoder ‘(*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 8*)’.

**Gwenda Thomas**

272

Section 180, page 123, after line 32, insert –

“NHS Foundation Trust” (*“Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG”*) has the meaning given by section 30 of the National Health Service Act 2006;’.

Adran 180, tudalen 124, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

‘mae i “Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG” yr ystyr a roddir i “NHS Foundation Trust” gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;’.

**William Graham**

94

Section 180, page 123, after line 32, insert –

“neglect” (*“esgeulustod”*) means the failure to meet a person’s basic physical, emotional, social or psychological needs, likely to result in the impairment of their health, well-being or development;’.

Adran 180, tudalen 123, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘ystyr “esgeulustod” (“neglect”) yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy’n debygol o arwain at amharu ar ei iechyd, llesiant neu ddatblygiad;’.

**Gwenda Thomas**

**273**

Section 180, page 124, after line 4, insert –

“prison” (“carchar”) is defined –

- (a) for the purposes of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) by section (section to be inserted by amendment 53)(1),
- (b) for the purposes of section 124, by section 124(subsection to be inserted by amendment 211), and
- (c) for the purposes of section 152, by section 152(subsection to be inserted by amendment 238);’.

Adran 180, tudalen 122, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘mae “carchar” (“prison”) wedi ei ddiffinio –

- (a) at ddibenion adrannau (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50) i (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52) gan adran (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 53)(1),
- (b) at ddibenion adran 124, gan adran 124(yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 211), ac
- (c) at ddibenion adran 152, gan adran 152(yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 238);’.

**Gwenda Thomas**

**58**

Section 180, page 124, after line 38, insert –

“youth detention accommodation” (“llety cadw ieuenctid”) is defined for the purposes of sections (section to be inserted by amendment 50) to (section to be inserted by amendment 52) by section (section to be inserted by amendment 53)(1);’.

Adran 180, tudalen 123, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

‘mae “llety cadw ieuenctid” (“youth detention accommodation”) wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50) i (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 52) gan adran (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 53)(1);’.

**Gwenda Thomas**

**274**

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 180, tudalen 125, llinell 21, hepgorer ‘cyfeirio’ a mewnosoder ‘gyfeiriad’.

**Gwenda Thomas** 275

Section 180, page 125, line 17, leave out ‘of “care order” in’ and insert ‘given by’.

Adran 180, tudalen 125, llinell 22, hepgorer ‘ystyr “care order” yn’ a mewnosoder ‘yr ystyr a roddir i “care order” gan’.

**Gwenda Thomas** 276

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 180, tudalen 125, llinell 29, hepgorer ‘Meddwl’ a mewnosoder ‘Meddyliol’.

**Gwenda Thomas** 277

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 180, tudalen 125, llinell 31, hepgorer ‘Meddwl’ a mewnosoder ‘Meddyliol’.

**Gwenda Thomas** 278

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 180, tudalen 125, llinell 32, hepgorer ‘cyfeirio’ a mewnosoder ‘gyfeiriad’.

**William Graham** 95

To insert a new section –

**‘( ) Guidance about neglect**

- (1) In considering whether a person is experiencing or at risk of experiencing neglect, a person exercising functions under this Act must have regard to guidance which must be issued by Welsh Ministers.
- (2) Guidance issued under subsection (1) must include examples and indicators of neglect for adults and children.
- (3) Any guidance issued by Welsh Ministers under subsection (1) may be varied or revoked by them.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Canllawiau ynghylch esgeulustod**

- (1) Wrth ystyried a yw person yn cael ei esgeuluso neu yn wynebu risg o gael ei esgeuluso, rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon roi sylw i ganllawiau y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru eu dyroddi.
- (2) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1) gynnwys enghreifftiau a dangosyddion o esgeulustod ar gyfer oedolion a phlant.
- (3) Caniateir i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu unrhyw ganllawiau a ddyroddir ganddynt o dan is-adran (1).’.

**Gwenda Thomas**

**279**

Section 182, page 126, line 24, leave out 'are to'.

Adran 182, tudalen 126, llinell 25, hepgorer 'Mae gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i ddod' a mewnosoder 'Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon'.

**Gwenda Thomas**

**280**

Section 182, page 126, line 25, leave out 'in an' and insert 'by'.

Adran 182, tudalen 126, llinell 26, hepgorer 'mewn gorchymyn' a mewnosoder 'drwy orchymyn'.

**William Graham**

**86**

Section 182, page 126, after line 25, insert—

- '( ) Before making an order under subsection (2) the Welsh Ministers must lay a report before the National Assembly for Wales which contains an assessment of how the needs and considerations of rural communities and areas have been taken into account in the preparation of this Act.'

Adran 182, tudalen 126, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

- '( ) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys asesiad o sut y mae anghenion ac ystyriaethau cymunedau ac ardaloedd gwledig wedi cael eu hystyried wrth lunio'r Ddeddf hon.'

**William Graham**

**93**

Section 182, page 126, after line 25, insert—

- '( ) Before making an order under subsection (2) the Welsh Ministers must lay a report before the National Assembly for Wales which contains an assessment of the actual costs involved in the Act's implementation.'

Adran 182, tudalen 126, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

- '( ) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys asesiad o'r gwir gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf.'

**Gwenda Thomas**

**59**

Section 182, page 126, after line 26, insert—

- '(4) An order made under subsection (2) may not commence the provision in subsections (1) and (2) of section 26 before regulations made under subsections (3) and (4) of that section have come into force.'

Adran 182, tudalen 126, ar ôl llinell 28, mewnosoder—

- '(4) Ni chaiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (2) gychwyn y ddarpariaeth yn is-adrannau (1) a (2) o adran 26 cyn bod rheoliadau a wneir o dan is-adrannau (3) a (4) o'r adran honno wedi dod i rym.'



**Lindsay Whittle**

96

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams, Simon Thomas**

Section 1, page 1, line 12, leave out '11' and insert '12'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 13, hepgorer '11' a mewnosoder '12'.

**Gwenda Thomas**

99

Section 1, page 1, after line 14, insert –

'( ) requires persons exercising functions under this Act to seek to promote the well-being of people who need care and support and carers who need support (section (section to be inserted by amendment 9));'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'( ) yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth (adran (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 9));'.

**Gwenda Thomas**

100

Section 1, page 1, line 16, leave out 'or carers who need or may need support' and insert ', carers who need or may need support, or persons in respect of whom functions are exercisable under Part 6'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 19, hepgorer 'neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt neu y gall fod angen cymorth arnynt' a mewnosoder ', gofalwyr y mae angen cymorth arnynt neu y gall fod angen cymorth arnynt, neu bersonau y mae swyddogaethau yn arferadwy mewn cysylltiad â hwy o dan Ran 6'.

**Gwenda Thomas**

101

Section 1, page 1, line 24, leave out 'the provision of preventative services by local authorities' and insert 'local authorities to provide or arrange for the provision of preventative services'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 29, ar ôl 'ddarparu', mewnosoder 'neu drefnu i ddarparu'.

**Gwenda Thomas**

102

Section 1, page 2, line 21, leave out 'information, advice and' and insert 'the provision of'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 22, hepgorer 'wybodaeth, cyngor a chynhorthwy' a mewnosoder 'ddarparu cynhorthwy'.

**Kirsty Williams** 317

Section 1, page 2, after line 22, insert –

‘() Part (*section to be inserted by amendment 319*) (Appeals) requires Welsh Ministers to make provision for and in connection with appeals against determinations of eligibility (section 26), ability to pay (section 57) and charging decisions (section 50).’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘() Mae Rhan (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 319*) (Apelau) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch ac mewn cysylltiad ag apelau yn erbyn dyfarniadau cymhwysra (adran 26), y gallu i dalu (adran 57) a phenderfyniadau i osod ffioedd (adran 50).’.

**Gwenda Thomas** 103

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 1, tudalen 2, llinell 31, hepgorer ‘dan gadwad’ a mewnosoder ‘wedi eu cadw’n gaeth’.

**Gwenda Thomas** 104

Section 1, page 3, line 19, leave out ‘in relation to adults,’.

Adran 1, tudalen 3, llinell 22, hepgorer ‘mewn perthynas ag oedolion,’.

**Gwenda Thomas** 105

Section 1, page 3, line 28, after ‘and’ at the second place where it appears, insert ‘for’.

Adran 1, tudalen 3, llinell 30, hepgorer ‘a chyfuno’ a mewnosoder ‘ac ar gyfer cyfuno’.

**Lindsay Whittle** 97

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams, Simon Thomas**

Section 1, page 3, after line 29, insert –

‘() Part (*section to be inserted by amendment 98*) (Amendment to the Children Act 2004) makes provision to remove the defence of reasonable punishment where battery of a child takes place in Wales.’.

Adran 1, tudalen 3, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘() Mae Rhan (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 98*) (Diwygio Deddf Plant 2004) yn gwneud darpariaeth i ddileu’r amddiffyniad o gosb resymol pan fo plentyn yn cael ei guro yng Nghymru.’.

**Gwenda Thomas** 106

Section 1, page 4, line 5, leave out ‘to co-operate and provide information in relation to the exercise of social services functions on local authorities and their relevant partners’ and insert ‘on the relevant partners to co-operate with, and provide information to, the local authorities for the purpose of their social services functions’.

Adran 1, tudalen 4, llinell 6, hepgorer ‘awdurdodau lleol a’u partneriaid perthnasol i gydweithredu a darparu gwybodaeth mewn perthynas ag arfer’ a mewnosoder ‘y partneriaid perthnasol i gydweithredu â’r awdurdodau lleol, a darparu gwybodaeth iddynt, at ddiben eu’.

**Angela Burns**

**324**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Simon Thomas**

Section 1, page 4, after line 13, insert—

- ‘() Part (*section to be inserted by amendment 325*) (National Board for Adoption Services)—
- (a) establishes a National Board for Adoption Services,
  - (b) makes provision for the functions of the Board, and
  - (c) confers powers on Welsh Ministers to make regulations about the Board.’

*An amendment linked to amendments 325 to 329, relating to the establishment of a national board for adoption services.*

Adran 1, tudalen 4, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- ‘() Mae Rhan (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 325*) (Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu)—
- (a) yn sefydlu Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu,
  - (b) yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau’r Bwrdd, ac
  - (c) yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y Bwrdd.’

*Gwelliant sy’n gysylltiedig â gwelliannau 325 i 329, sy’n ymwneud â sefydlu Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu.*

**Gwenda Thomas**

**73**

Section 1, page 4, line 14, leave out ‘and representations) has two’ and insert ‘, representations and advocacy services) has three’.

Adran 1, tudalen 4, llinell 15, hepgorer ‘a sylwadau) ddwy bennod’ a mewnosoder ‘, sylwadau a gwasanaethau eirioli) dair pennod’.

**Gwenda Thomas**

**74**

Section 1, page 4, after line 18, insert—

- ‘() Chapter 3 provides for advocacy services to be made available to people with needs for care and support for purposes relating to their care and support.’

Adran 1, tudalen 4, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

- ‘() Mae Pennod 3 yn darparu i wasanaethau eirioli gael eu rhoi ar gael i bobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth at ddibenion sy’n ymwneud â’u gofal a cymorth.’

**Gwenda Thomas**

**6**

Section 1, page 4, after line 23, insert –

‘() makes provision about how this Act applies to persons in prison, youth detention accommodation or bail accommodation etc (sections (*section to be inserted by amendment 50*) to (*section to be inserted by amendment 53*));’.

Adran 1, tudalen 4, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘() yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae’r Ddeddf hon yn gymwys i bersonau mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc (adrannau (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 50*) i (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 53*));’.

**Gwenda Thomas**

**107**

Section 1, page 4, line 36, leave out ‘that apply to a number of provisions, but not the whole Act’.

Adran 1, tudalen 4, llinell 37, hepgorer ‘sy’n gymwys i nifer o ddarpariaethau, ond nid i’r Ddeddf gyfan’.